CT2403(27.3.24) -MI

# Minutes of Culture, Tourism & Communications Committee Wednesday, 27 March 2024, at 6.30 pm.
# Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present:** Cllrs Rob Marshall (Chair), Tim Zhou and Richard Jarvis

**Co-opted members:** Pip Reason

**Officer Present:** Ian Hughes – CSO

CT2403-01 **Apologies for Absence**

Cllrs. Angela O'Connor Martin O'Neill, Rhian Evans and Mike Parkin.

CT2403-02 **Declarations of Interest**

None

CT2403-03 **Mumbles Traders Update**

Paul Whittaker of The Mumbles Trading Association provided a report to all committee members on how the MCC grant contributed to events in The MCC locality. Events planned for 2024 include 'Here Comes the Summer' on 25th July, 'Mumbles Classic Cars Show' on 29th August, 'Oystermouth Food and Drink Festival' on 14th and 15th September and 'Christmas Lights & Parade' on 28th November.
Paul outlined how costs in general had increased and that associated costs of events such as barriers and toilet facilities had increased due to the success of these events.
In relation to closing Newton Road, Special Events at Swansea Council charged £400 in addition to the £350 fee charged by The Highways Department.
Paul addressed questions from committee members and stated that he had public liability insurance for the whole year and that each event was detailed within the insurance policy. The subject of 'licencing' was discussed, and it was **AGREED** that this would be discussed at a later stage within working groups.
In relation to other future events Paul stated that The 'Retro' weekend event did not come within the auspices of MCC.
**ACTION;** Paul Whittaker and Mike Eames to discuss plans to commemorate D-Day with Claire Anderson who will report back to Cllr. Marshall.

Following this agenda item, Paul Whittaker left the meeting at **7.02pm**

Mumbles Community Council

CT2403-04

Minutes of the Previous Meeting of the Committee
To approve the minutes of the meetings held on 29 February 2024 and 13 March 2024 as true records.
Approval of the minutes relating to the meeting held on 13 March 2024 postponed until April Meeting due to insufficient Councillors from that meeting being present.

**RESOLVED:** To approve the meeting minutes held on 29 February 2024 as an accurate record. Proposed by Cllr Zhou and seconded by Cllr Marshall.

CT2403-05

**Update on actions from previous meetings.**
The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

CT2403-06

**Budget Monitoring Report to 31/01/2024 - RFO, Paul Beynon**
Reports attached.

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to councillors, the CSO stated that no questions relating to the budget reports had been raised prior to the meeting.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31st January 2024.

CT2403-07

**MumblesFest**
Including a decision on the 'final line up'.

Options for acts at MumblesFest to be discussed. The Chair, Cllr. Marshall set out that a discussion needed to take place in relation to the various options available and that due to the confidentiality of the issues in question it was proposed that the recoding of the meeting be stopped and that the press and public should be excluded.

**Exclusion of Press and Public**

In accordance with the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, it is proposed that the press and public be excluded from the following item (agenda item CT2403-07) of business due to the confidential nature of the business to be transacted.

Mumbles Community Council

**RESOLVED** that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting. The recording of the meeting stopped at **7.35pm**.

The committee discussed the line-up options for MumblesFest 2024 in a 'closed session'.
The 'closed' session ended at 7.55pm and the recording of the meeting recommenced.

CT2403-08 **MumblesFest Booking Recommendations**

The Chair, Cllr. Marshall drew members attention to the report that had been prepared by the Events and Marketing Office which had been circulated to all members in advance of the meeting.

It was noted that there had been a significant increase on all quotes that had been obtained, it was further highlighted that 3 quotes where possible had been sought as per the Council's Financial Regulations.

The table below outlines the quotes that were discussed.

| Company Name | Service Quoted For | Quote Amount |
|---|---|---|
| Total Sound | Stage, lighting & sound | 5465.00 |
| Commercial Marquees | Marquees | 2724.00 |
| City Loo Hire | Event Toilets | 1014.00 |
| Brandon Hire | Fence Hire | 1590.00 |
| | Security | 1358.00 |
| Swansea City Council | Cleansing | 450.00 plus 187.82 per tonne of waste |
| St Johns Ambulance | First Aid | 650.00 |
| Gower Events | Benches | 1440.00 |
| Inflatables | Bouncy Castle | 1020.00 |
| Nigel | H&S | 700.00 |
| Photographer | Photography | 320.00 |

Using delegated powers as per minute number CO2402-12 Committee made the following decisions:
RESOLVED: To accept the quote from Total Sounds for the amount of £5,465.00 to provide Mumblesfest Staging, Lighting & Sound.
RESOLVED: To accept the quote from Commerical Marquees for the amount of £2,724.00.
RESOLVED: The Events & Marketing Officer to obtain further quotes for security fencing.
RESOLVED: For the Clerk to approve the contractor for security fencing once further quotes have been received.

RESOLVED: For the Events & Marketing Officer to seek further quotes for Event Security.
RESOLVED: For the Clerk to approve the contractor & quote for Mumblesfest Event Security
RESOLVED: Photographer futher quotes to be sought.
No decision was made on the following quotes:
City Loo – Toilets
SCC Cleansing
St Johns Ambulance – First Aid
Gower Events – Benches
Nigel Jones Health & Safety

The committee were informed that the following food vendors attended last years Mumblesfest.

Nellie Mays Fish & Chips
Gower Dough
Mumbles Coffee
Goggi
West Wales Chop Shop
Tuckers BBQ
Ice Cream Vendor

A query was raised by a committee member as to why the food vendors do not tender the same as bar suppliers do.

The Chair provided an explanation and the committee member requested that next year the same process for food and bar supplies follow the same process.
While all members of the committee agreed no vote was taken.

CT2403-09 **Castles in the sky**

All committee members were again supportive of Welsh Air Ambulance's initiative to raise awareness and resources.

**RECOMMENDATION:** Full Council to approve Sianny Martin of Welsh Air Ambulance, being allowed to have a 'Castles in the Sky' event at Mumbles Skatepark. No date set.

CT2403-10 **Boules Tournament**

Cllr Marshall outlined that a Boules Tournament in Mumbles would be outlined during the April Meeting.

CT2403-11 **Mumbles Palette Jubilee**

Agenda item covered in following item CT2403-11

Mumbles Community Council

CT2403-12 **Essence of Mumbles: A photographic exploration**

Cllr Zhou outlined that following a meeting with Graham Smith and Cllr O'Neill the Mumbles Palette Jubilee would focus purely on photographic competitions and be renamed 'Essence of Mumbles: A photographic exploration'.
All committee members were enthusiastic at the prospect of such a competition which is still at the early stages of being formulated.
The competition will include all aspects from portraits to street scenes. A discussion over consent in relation to people being photographed took place. Prizes were also discussed with the option of winners receiving vouchers to spend locally as opposed to cash prizes.
It is anticipated that the event will take place in September thereby avoiding school holidays with The Ostreme Centre being used to reduce expenditure.

**AGREED:** Permission not required in public, but consent forms will be required for non-public areas including shopping malls.

**ACTION:** Cllr Zhou together with Cllr O'Neill to set up a working group to confirm categories, judges, prizes, dates of competition and other considerations.

CT2403-13 **Future Events**

No additional events being considered currently due to the number of existing projects being undertaken.

**The meeting ended at 8.12pm.**

**Next Meeting on 24th April 2024**

# Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu Dydd Mercher, 27 Mawrth, 2024 am 6.30 pm.
# Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y cynghorwyr Rob Marshall (cadeirydd), Tim Zhou a Richard Jarvis

**Aelodau cyfetholedig :** Pip Reason

**Swyddog yn bresennol:** Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

CT2403-01 **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y cynghorwyr Angela O'Connor, Martin O'Neill, Rhian Evans a Mike Parkin.

CT2403-02 **Datganiadau o fuddiant**
Dim

CT2403-03 **Diweddariad Masnachwyr y Mwmbwls**
Darparodd Paul Whittaker o Gymdeithas Masnachwyr y Mwmbwls adroddiad i holl aelodau'r pwyllgor ar sut y cyfrannodd grant Cyngor Cymuned y Mwmbwls at ddigwyddiadau yn ardal y Mwmbwls. Ymhlith y digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2024 mae 'Hwyl yr Haf' ar 25 Gorffennaf, 'Sioe Ceir Clasurol y Mwmbwls' ar 29 Awst, 'Gŵyl Bwyd a Diod Ystumllwynarth' ar 14 a 15 Medi a 'Goleuadau a Gorymdaith y Nadolig' ar 28 Tachwedd.
Amlinellodd Paul sut roedd costau yn gyffredinol wedi cynyddu a bod costau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiadau, fel atalfeydd a chyfleusterau toiled, wedi cynyddu oherwydd llwyddiant y digwyddiadau hyn. Mewn perthynas â chau Heol Newton, cododd tîm digwyddiadau arbennig Cyngor Abertawe ffi o £400 yn ychwanegol at y ffi o £350 a godwyd gan yr adran briffyrdd.
Atebodd Paul gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor a dywedodd fod ganddo yswiriant atebolrwydd cyhoeddus am y flwyddyn gyfan a bod manylion pob digwyddiad yn y polisi yswiriant. Trafodwyd pwnc 'trwyddedu', a **CHYTUNWYD** y byddai hyn yn cael ei drafod yn ddiweddarach o fewn y gweithgorau.
Mewn perthynas â digwyddiadau eraill yn y dyfodol, dywedodd Paul nad oedd y digwyddiad penwythnos 'Retro' yn dod o dan nawdd Cyngor Cymuned y Mwmbwls.
**CAM GWEITHREDU;** Paul Whittaker a Mike Eames i drafod cynlluniau i goffáu 'D-Day' â Claire Anderson a fydd yn adrodd yn ôl i'r cynghorydd Marshall.

Yn dilyn yr eitem hon ar yr agenda, gadawodd Paul Whittaker y cyfarfod am **7.02pm**

**Commented [JG1]:** We were unable to find a Welsh language name for the "Here Comes the Summer" event mentioned in the original English language document. We created our own translation, which is "Hwyl yr Haf". Diolch!

CT2403-04

Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Chwefror 2024 a 13 Mawrth 2024 fel cofnodion cywir.
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2024 a oedd wedi'i ohirio tan gyfarfod mis Ebrill oherwydd nad oedd digon o gynghorwyr o'r cyfarfod hwnnw'n bresennol.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Chwefror 2024 fel cofnod cywir. Cynigwyd gan y cynghorydd Zhou ac eiliwyd gan y cynghorydd Marshall.

CT2403-05

**Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol**
Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cymryd ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai cyflawn lle bo'n briodol. Mae manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd.

CT2403-06

**Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 31/01/2024 – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon**
Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Paul Beynon wedi'u darparu i gynghorwyr yn flaenorol, dywedodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau nad oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud ag adroddiadau cyllideb wedi'u codi cyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Ionawr 2024.

CT2403-07

**Gŵyl y Mwmbwls**
Gan gynnwys penderfyniad ar 'y rhestr derfynol'.

Opsiynau ar gyfer perfformwyr yng Ngŵyl y Mwmbwls i'w trafod. Dywedodd y cadeirydd, y cynghorydd Marshall fod angen trafodaeth mewn perthynas â'r opsiynau amrywiol sydd ar gael ac oherwydd cyfrinachedd y materion dan sylw, cynigiwyd atal recordio'r cyfarfod ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio.

**Gwaharddy y wasg a'r cyhoedd**

Yn unol â darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cynigir bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r eitem busnes a ganlyn (eitem ar yr agenda CT2403-07) oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

**PENDERFYNWYD** oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod. Daeth cofnodi'r cyfarfod i ben am **7.35pm**.

Trafododd y pwyllgor yr opsiynau ar gyfer adloniant Gŵyl y Mwmbwls 2024 mewn 'sesiwn gaeedig'.
Daeth y sesiwn 'gaeedig' i ben am 7.55pm ac ailddechreuwyd cofnodi'r cyfarfod.

CT2403-08

**Argymhellion archebu Gŵyl y Mwmbwls**

Tynnodd y cadeirydd, y cynghorydd Marshall sylw'r aelodau at yr adroddiad a baratowyd gan y Swyddfa Digwyddiadau a Marchnata a oedd wedi'i ddosbarthu i'r holl aelodau cyn y cyfarfod.

Nodwyd bod yr holl ddyfynbrisiau a gafwyd wedi cynyddu'n sylweddol, amlygwyd ymhellach y ceisiwyd tri dyfynbris, lle bu'n bosibl, yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r dyfynbrisiau a drafodwyd.

| Enw'r Cwmni | Gwasanaeth y Cafwyd Dyfynbris ar ei Gyfer | Swm y Dyfynbris |
|---|---|---|
| Total Sound | Llwyfan, goleuadau a sain | 5465.00 |
| Commercial Marquees | Pebyll mawr | 2724.00 |
| City Loo Hire | Toiledau Digwyddiad | 1014.00 |
| Brandon Hire | Llogi Ffensys | 1590.00 |
| | Diogelwch | 1358.00 |
| Cyngor Dinas a Sir Abertawe | Glanhau | 450.00 yn ogystal â 187.82 fesul tunnell o wastraff |
| Ambiwlans Sant Ioan | Cymorth Cyntaf | 650.00 |
| Gower Events | Meinciau | 1440.00 |
| Offer wedi'u llenwi ag aer | Castell Neidio | 1020.00 |
| Nigel | Iechyd a Diogelwch | 700.00 |
| Ffotograffydd | Ffotograffiaeth | 320.00 |

Gan ddefnyddio pwerau dirprwyedig yn unol â rhif cofnod CO2402-12, gwnaeth y pwyllgor y penderfyniadau a ganlyn:

PENDERFYNWYD: Derbyn y dyfynbris gan Total Sounds am y swm o £5,465.00 i ddarparu llwyfannu, goleuadau a sain ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls.
PENDERFYNWYD: Derbyn y dyfynbris gan Commerical Marquees am y swm o £2,724.00.
PENDERFYNWYD: Bydd y Swyddog Digwyddiadau a Marchnata yn cael dyfynbrisiau pellach ar gyfer ffensio diogelwch.
PENDERFYNWYD: Bydd y clerc yn cymeradwyo'r contractwr ar gyfer ffensio diogelwch unwaith y bydd dyfynbrisiau pellach wedi'u derbyn.

PENDERFYNWYD: Bydd y Swyddog Digwyddiadau a Marchnata yn ceisio dyfynbrisiau pellach ar gyfer diogelwch digwyddiadau.
PENDERFYNWYD: Bydd y Clerc yn cymeradwyo'r contractwr a'r dyfynbris ar gyfer diogelwch digwyddiadau Gŵyl y Mwmbwls
PENDERFYNWYD: Gofyn am ddyfynbrisiau pellach gan ffotograffwyr.
Ni wnaed unrhyw benderfyniad ar y dyfynbrisiau canlynol:
City Loo – Toiledau
SCC – Glanhau
Ambiwlans Sant Ioan – Cymorth Cyntaf
Gower Events – Meinciau
Nigel Jones – Iechyd a Diogelwch

Hysbyswyd y pwyllgor bod y gwerthwyr bwyd a ganlyn wedi mynychu Gŵyl y Mwmbwls y llynedd.

Nellie May's Fish & Chips Co
The Gower Dough Co
Mumbles Coffee
Goggi's Cuisine
West Wales Chop Shop
Barbeciw 'Tuckers'
Gwerthwr Hufen Iâ

Codwyd ymholiad gan aelod o'r pwyllgor ynghylch pam nad yw'r gwerthwyr bwyd yn gwneud cynnig am waith yn yr un modd ag y mae'r cyflenwyr bar yn ei wneud.

CT2403-09 Darparodd y cadeirydd eglurhad a gofynnodd yr aelod o'r pwyllgor fod yn rhaid i gyflenwyr bwyd a bar ddilyn yr un broses y flwyddyn nesaf.
Er bod holl aelodau'r pwyllgor yn cytuno ni chymerwyd pleidlais.

**Cestyll yn yr awyr**
Roedd holl aelodau'r pwyllgor unwaith eto yn gefnogol i fenter Ambiwlans Awyr Cymru i godi ymwybyddiaeth ac adnoddau.

CT2403-10

Mumbles Community Council

**ARGYMHELLIAD:** Y cyngor llawn i gymeradwyo Sianny Martin o Ambiwlans Awyr Cymru i gael caniatâd i gynnal digwyddiad 'Cestyll yn yr Awyr' ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls. Dim dyddiad wedi ei osod.

CT2403-11

**Twrnamaint boules**

Dywedodd y cynghorydd Marshall y byddai twrnamaint boules yn y Mwmbwls yn cael ei amlinellu yn ystod cyfarfod mis Ebrill.

CT2403-12

**Jiwbilî Palet y Mwmbwls**

Eitem agenda a drafodir yn yr eitem ganlynol CT2403-11

**Naws y Mwmbwls: Archwiliad ffotograffig**

Amlinellodd y cynghorydd Zhou y byddai Jiwbilî Palet y Mwmbwls, yn dilyn cyfarfod gyda Graham Smith a'r cynghorydd O'Neill, yn canolbwyntio'n llwyr ar gystadlaethau ffotograffig ac yn cael ei hailenwi 'Naws y Mwmbwls: Archwiliad ffotograffig'.
Roedd holl aelodau'r pwyllgor yn frwd ynghylch y posibilrwydd o gystadleuaeth o'r fath, sy'n dal i fod yn y camau cynnar o gael ei llunio.
Bydd y gystadleuaeth yn cynnwys pob agwedd o ffotograffiaeth – o bortreadau i olygfeydd stryd. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chaniatâd mewn perthynas â phobl yn cael tynnu eu lluniau. Trafodwyd gwobrau hefyd gyda'r opsiwn o enillwyr yn derbyn talebau i'w gwario'n lleol yn hytrach na gwobrau ariannol.
Rhagwelir y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ym mis Medi ac felly'n osgoi gwyliau ysgol, gyda Chanolfan Ostreme yn cael ei defnyddio er mwyn lleihau gwariant.

**CYTUNWYD:** Nid oes angen caniatâd mewn mannau cyhoeddus, ond bydd angen ffurflenni caniatâd ar gyfer mannau nad ydynt yn gyhoeddus gan gynnwys canolfannau siopa.

CT2403-13

**CAM GWEITHREDU:** Y cynghorydd Zhou ynghyd â'r cynghorydd O'Neill i sefydlu gweithgor i gadarnhau categorïau, beirniaid, gwobrau, dyddiadau cystadlu ac ystyriaethau eraill.

**Digwyddiadau yn y dyfodol**

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ychwanegol yn cael eu hystyried ar hyn o bryd oherwydd nifer y prosiectau presennol sy'n cael eu cyflawni.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.12pm.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 24 Ebrill 2024**